

Atodiad 2

Y Rhestr Wirio: Cefnogi Aelod Trawsrywiol o'r Staff

Pan fo aelod o'r staff yn ystyried trawsnewid neu wrthi'n trawsnewid dylent hysbysu naill ai'r rheolwr llinell, Pennaeth yr Ysgol neu Bennaeth yr Adran, neu Swyddog Cydraddoldeb yr Adnoddau Dynol i ofyn am gefnogaeth. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r sawl sy'n ystyried trawsnewid neu wrthi'n trawsnewid gwblhau'r **Ffurflen Hysbysu sydd yn Atodiad 1**. Caiff cyfarfod ei drefnu i drafod y sefyllfa'n gyfrinachol ac i gytuno ynghylch y gefnogaeth a'r broses.

Yn y cyfarfod bydd yn bwysig iawn penderfynu pwy ddylai gael gwybod beth a phryd a sut y dylai hynny ddigwydd. Dylai'r penderfyniadau hyn gael eu harwain gan yr aelod trawsrywiol o'r staff.

Dyma restr wirio ar gyfer y cyfarfod hwnnw i helpu sicrhau bod cymorth ymarferol priodol ar waith ar gyfer staff trawsrywiol cyn iddynt drawsnewid, yn ystod y trawsnewid ac wedi'r trawsnewid. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Traws-Gydraddoldeb a'r Drefn Berthynol.

Yr ebost ac enwau defnyddwyr

- Pa gyfrifon e-bost ac enwau defnyddwyr y bydd angen eu newid a phryd?
- Os oes gan yr aelod o'r staff hunaniaeth hylifol o ran rhywedd, a fydd angen creu cyfrifon e-bost neilltuol neu a oes modd cysylltu'r ddau?

Cardiau Adnabod

- Pa gardiau adnabod/bathodynnau enw sydd angen eu newid a phryd?
- Os oes gan yr aelod o'r staff hunaniaeth hylifol o ran rhywedd, a fydd angen mwy nag un o'r mathau yma o gardiau adnabod arnynt?

Enghreifftiau o'r cardiau adnabod y bydd angen eu diweddarau:

- Cardyn adnabod y Brifysgol
- Cardyn Llyfrgell
- Bathodynnau adnabod gwirfoddolwr/mentor
- Bathodyn aelodaeth undeb llafur
- Cardiau aelodaeth corff proffesiynol/dysgedig
- Cardyn aelodaeth campfa Canolfan Brailsford
- Cardyn arlwyo/prydau bwyd (Yoyo)
- Cardiau adnabod lleoliad
- Cardyn Cynrychiolydd Cwrs

Cofnodion a dogfennau

Rhaid peidio â newid unrhyw gofnodion heb ganiatâd yr aelod o'r staff dan sylw. Dylid cytuno ar ddyddiad i newid pob cofnod.

Gall pobl drawsrywiol newid eu henw cyfreithiol trwy wneud datganiad statudol o newid enw. Fodd bynnag mae rhai pobl drawsrywiol yn dewis peidio â newid eu henw. Nid oes byth reidrydd i aelod o'r staff gyflwyno Tystysgrif Cydnabod Rhywedd i newid eu henw.

Gellir newid rhai cofnodion ar gais yr unigolyn (e-bost a chyfeiriadur ac ati) heb ddim dogfennaeth swyddogol. Mae hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i drawsnewid yn ddigonol.

Dim ond ar ôl derbyn y dogfennau swyddogol y gallwn newid cofnodion eraill (AD, lechyd Galwedigaethol, pensiynau a thystysgrifau gradd). O dan y GDPR, mae hunaniaeth drawsrywiol ac aillbennu rhywedd yn gyfystyr â 'data personol sensitif'.

Dylai ffeil neu gofnod rhywun bob amser adlewyrchu eu henw a'u rhywedd gyfredol. Dylid cadw unrhyw ddogfennau y mae angen eu cadw sy'n gysylltiedig â statws trawsrywiol y person yn gyfrinachol mewn amlen wedi'i selio ac ni ddylai neb gael eu gweld oni fydd hynny'n angenrheidiol, a hynny gyda chaniatâd yr unigolyn dan sylw. Os yw person trawsrywiol yn derbyn Tystysgrif Cydnabod Rhyw (GRC), mae ganddynt yr hawl i ofyn am dynnu pob cyfeiriad at eu henw a'u rhyw blaenorol o'r hen gofnodion. Yn yr achos hwnnw, rhaid diweddarau'r holl gofnodion blaenorol a'u disodli yn y ffeil. Er enghraifft, dylai'r hen dystysgrif eni gael ei disodli gan yr un newydd; dylid disodli unrhyw lythyrau ynghylch cynigion/derbyniadau gan adlewyrchu'r enw newydd. Ni ddylai dim aros yn y ffeil a fyddai'n datgelu i drydydd parti bod newid wedi digwydd.

Fel gyda phob newid enw sy'n ymwneud â'r staff, gellir cyflwyno dogfennau penodol naill ai trwy e-bost neu yn bersonol. Rhaid i'r dogfennau swyddogol sy'n nodi eu henw/cardyn adnabod/newydd/wedi ei ddiweddarau ddod o blith y canlynol:

- Pasbort
- Cadarnhad GWEITHRED NEWID ENW
- Tystysgrif briodas
- Trwydded yrru
- Cardiau adnabod eraill y Llywodraeth

(Caiff copi o'r dogfennau swyddogol ei sganio a'i gadw gyda chofnodion cyfrinachol ar y system AD.)

Isod wele enghreifftiau o gofnodion y bydd angen eu diweddarau a pha ddogfennau a chofnodion sydd angen eu disodli neu eu haddasu a phryd:

Os oes gan yr aelod o'r staff neu'r myfyriwr hunaniaeth hylifol o ran rhywedd, a fydd angen mwy nag un o'r mathau yma o gardiau adnabod arnynt?

- Bywgraffiadau academiaidd ar FyMangor
- Ffotograffau
- Pob cofnod staff a'r cronfeydd data, ffurflenni cofrestru, cofnodion cyllidol
- Rhestrau cyrsiau, rhaglenni a modiwlau
- Cofnodion y tiwtor personol
- Cofnodion lles/anabledd/cwrsela
- Cofnodion gwirfoddoli a mentora
- Posterï cynrychiolwyr cwrs a manylion cyswllt
- Cofnodion a chofnodion pwyllgor, er enghraifft, byrddau astudio neu fyrddau academiaidd

Noder: Efallai na fyddwn yn gallu newid cofnodion hanesyddol. Dylid ystyried rhoi sylw swyddogol i'r ffaith bod rhywun wedi trawsnewid mewn trafodion a gofnodir os yw'n briodol. Fel arall, ystyriwch ddiolch i'r aelod pwyllgor presennol am eu gwasanaeth a'u croesawu fel aelod newydd o'r pwyllgor o dan eu henw newydd.

- Tystysgrifau, er enghraifft, eithriad treth y cyngor, presenoldeb ar hyfforddiant, gradd
- Cofnodion aelodaeth clybiau a chymdeithasau
- Y Gyflogres (a manylion bancio)
- Pensiwn, marw mewn gwaith a buddion y dibynyddion

Noder: At ddibenion pensiynau'r wladwriaeth, caiff pobl drawsrywiol sydd heb (GRC) eu trin fel y rhyw a gofnodwyd adeg eu geni. Bydd USS a UPAS angen tystiolaeth gyfreithiol o ryw

yn ogystal â newid enw. Ar gyfer hynny dylid gofyn i'r staff roddi tystysgrif eni newydd ac os yw'n briodol, ddatganiad statudol o newid enw.

- Polisiâu Yswiriant:
- Cyllidwyr

Hysbysu eraill

Pwy sydd angen ei hysbysu? Sut a phryd y dylid eu hysbysu?

Enghreifftiau o bwy y gallai fod angen eu hysbysu

- Cydweithwyr a myfyrwyr
- Adrannau cymorth (cyllid, cofnodion myfyrwyr, llety, ac ati)
- Ysgrifenyddion pwyllgorau

Ystyriaethau Ymarferol

Bydd rhai ystyriaethau ymarferol yn codi pan fydd rhywun yn trawsnewid, er enghraifft, cyfleusterau un rhyw a chod gwisg. Pan fydd rhywun yn trawsnewid, byddant fel arfer yn dechrau defnyddio'r cyfleusterau sy'n briodol i'w hunaniaeth rhyw, e.e. mae merched trawsrywiol yn defnyddio cyfleusterau'r merched, ac mae dynion trawsrywiol yn defnyddio cyfleusterau'r dynion. Bydd pobl ddeuaidd yn defnyddio'r cyfleusterau y maen nhw'n credu sydd fwyaf priodol iddynt. Efallai y bydd angen egluro'r sefyllfa'n ofalus i gydweithwyr ar ôl ymgynghori â'r person trawsrywiol. Nid yw'n dderbyniol dweud wrth y person trawsrywiol ddefnyddio toiled yr anabl oni bai bod y person yn anabl a bod angen defnyddio'r cyfleusterau hynny arnynt.

Bydd angen arfer hyblygrwydd gyda'r cod gwisg yn nyddiau cynnar y cyfnod trawsnewid, oherwydd rhaid prynu dillad newydd yn aml, a dylid trafod hynny gyda'r unigolyn, gan ystyried yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wisgo i'r gwaith ac yn unol ag unrhyw god gwisg iechyd a diogelwch sydd gan y Brifysgol sy'n berthnasol i'r holl staff a'r myfyrwyr.

Prosesau sy'n gefn i'r trawsnewid meddygol

Dylid trin y staff sy'n mynd trwy brosesau meddygol a llawfeddygol sy'n gysylltiedig ag ailbennu rhywedd yn union yr un modd â phob absenoldeb arall sy'n gysylltiedig â salwch, yn unol â Pholisi Absenoldeb y Brifysgol.

Gall polisiâu eraill megis y Polisi Gweithio'n Hyblyg fod yn berthnasol hefyd. Ymhob achos, dylai'r rheolwyr geisio bod mor hyblyg â phosib gyda cheisiadau rhesymol am absenoldeb neu newidiadau i'r patrymau gwaith ac astudio a hynny gan ofalu am yr anghenion gweithredol ac arholiadau.

- Os yw'r aelod o'r staff yn cael llawdriniaeth, neu os bydd, a yw'n gwybod pryd bydd hynny?
- Os yw'r aelod o staff yn gofyn am amser i ffwrdd ar gyfer llawfeddygaeth ac adferiad, pa brosesau/cymorth/addasiadau sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn aros mewn cyflogaeth neu'n gallu dychwelyd pan fyddant wedi gwella?
- A oes unrhyw ofynion proffesiynol neu bresenoldeb y gallai absenoldeb y person effeithio arnynt ar gyfer cymorth meddygol?

Hyfforddiant

- A fydd angen trefnu unrhyw hyfforddiant ar gyfer rheolwyr, cydweithwyr neu gyd-fyfyrwyr?
- Pwy ddylai gael ei hyfforddi?

Adrodd ynghylch Trawsffobia

Mae modd adrodd yr holl achosion o fwlio, aflonyddu a gwahaniaethu drwy Swyddog Cydraddoldeb yr Adnoddau Dynol. Mae modd adrodd am achosion yn ddiennw neu gyda'r opsiwn i gael cymorth gan gynghorydd aflonyddu hyfforddedig.